Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 307 – 25 Ionawr 2008
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2008.

1. Cyflwyniad Technegol

Cafwyd Cyflwyniad Technegol gan Arshad Rasul, Cyfarwyddwr Darlledu a Dosbarthu S4C. Cyflwynodd AR gyfres o sleidiau yn esbonio sut yr oedd technoleg dosbarthu platfformau digidol yn gweithio a chafwyd trafodaeth am elfennau o'r cyflwyniad.

2. Cyflwyniad Ymchwil

Cyflwynodd Carys Evans, Pennaeth Ymchwil S4C ganlyniadau ymchwil hyd at ddiwedd 2007.

3. Adroddiad y Cadeirydd

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gam nesaf adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Cyfeiriodd at Adroddiad Bianchi ar y Wasg Brintiedig Gymraeg sydd wedi ei chyhoeddi yn ddiweddar.

Bydd y Cadeirydd ynghyd â rhai o'r Aelodau a swyddogion yn cyfarfod â thîm yr Athro Colin Baker wythnos nesaf i drafod materion yn ymwneud â dwyieithrwydd.

Nododd ei fod wedi cyfarfod â Jeremy Hunt AS, llefarydd yr wrthblaid yn San Steffan ar ddiwylliant, cyfryngau a chwaraeon.

Rhoddodd y Cadeirydd, ynghyd â Tim Hartley, Pennaeth Materion Corfforaethol, a Phil Williams, Ysgrifennydd Awdurdod S4C, dystiolaeth ar bwnc globaleiddio ym maes darlledu ger bron y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn ddiweddar.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad.

Cafwyd adroddiad ar weithgareddau masnachol S4C.

Nododd fod S4C wedi cyrraedd statws carbon-niwtral bellach.

5. Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni 2007

Esboniodd Eira Davies fod y Pwyllgor Cynnwys wedi trafod drafft o'r Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni ar gyfer 2007. Bydd swyddogion yn cyflwyno drafft pellach o'r Adolygiad i'r Pwyllgor.

6. Llythyr ADdCCh parthed grant S4C ar gyfer 2008

Nodwyd llythyr James Purnell AS yn cadarnhau lefel grant S4C oddi wrth yr ADdCCH ar gyfer 2008. Penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol yn diolch am y llythyr.

7. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad Monitro Cynllun Corfforaethol 2007
- Cynllun Corfforaethol 2008
- Polisi a Chanllawiau ar gyfer Darllediadau Pleidiau Gwleidyddol a Darllediadau Etholiadol 2008
- Rhaglen Waith yr Awdurdod 2008
- Tabl Digwyddiadau am 2008